4.18 Mae paragraff C10 yr SPG yn egluro y dylai Asesiad Effaith ddarparu ymateb i gwestiynau mwy treiddgar ar effeithiau ieithyddol posib a'i gwneud yn ofynnol i ddatblygwr gynnig rhai mesurau lliniaru os oes angen, er mwyn lleihau unrhyw effeithiau niweidiol canfyddedig ar y Gymraeg. Dylai unrhyw liniaru fod yn gysylltiedig â'r cynnig, yn berthnasol i gynllunio, a bydd yn amrywio rhwng gwahanol fathau o ddatblygiad.

### *Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022*

4.19 Mae Cynllun y Cyngor yn seiliedig ar dri amcan llesiant, sy'n sicrhau y gall y Sir:

1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir;
2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib; a
3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

4.20 Er mwyn cyflawni amcan tri, bydd yr IACC yn gweithio gydag eraill i alluogi newidiadau arloesol i ddigwydd, gan gynnwys y cynnydd yn yr iaith Gymraeg yn ardal y Cyngor, wrth hyrwyddo ei defnydd ar draws cymunedau a sefydliadau lleol.

[1] Daw'r ffigurau o StatsCymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Yr Iaith Gymraeg. Ar gael yn https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure

## 5.0 METHODOLEG A'R SYLFAEN DYSTIOLAETH

5.1 Mae'r Adran hon yn manylu ar y fethodoleg ar gyfer tystiolaeth a nodir yn yr adroddiad hwn, a lywiwyd gan Atodiad 7 yr SPG Cynnal a Chreu Cymunedau Nodweddiadol a Chynaliadwy. Mae canllawiau'r Cyngor yn nodi y dylid cyflwyno'r dystiolaeth fel a ganlyn:

*Cam 1 – Casglu, cofnodi a dadansoddi gwybodaeth am yr ardal leol:*

- Poblogaeth
- Aelwyd
- proffil tai
- Isadeiledd – cyfleusterau a gwasanaethau

*Cam 2 – Casglu, cofnodi a dadansoddi gofynion y Polisi:*

- Polisi cenedlaethol, lleol a rhanbarthol sy'n effeithio ar gyflawni'r datblygiad, gan gynnwys y rhai sy'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

*Cam 3 – Cymhwyso'r Wybodaeth a Gasglwyd yng ngham 1 a 2.*

- Disgrifiwch y cais a pham y credwch ei fod yn gyson â pholisïau cenedlaethol a lleol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y gymuned/ardal leol
- Materion allweddol a nodwyd gan y Cyngor yn Atodiad 7 yr SPG wedi'u hesbonio a chyda tystiolaeth yn erbyn y cynigion datblygu.

5.2 Daw'r data o'r Cyfrifiad diweddaraf (2011) ar lefel Ward, ac Awdurdod Unedol, oni nodir yn wahanol.

5.3 Cyflwynir Camau 1 a 2 yn y bennod hon, gyda chanlyniadau Cam 3 yn cael eu cyflwyno ym Mhennod 6.

### *Cam 1: Casglu, cofnodi a dadansoddi gwybodaeth am yr ardal leol:*

#### Poblogaeth

5.4 Cyfanswm y nifer o siaradwyr Cymraeg yn 2001 oedd 77,846, sef 69.0% o boblogaeth Ynys Môn a Gwynedd (Sir). Dros y cyfnod o ddeng mlynedd hyd at 2011, bu gostyngiad o 846 yn y nifer a 3.6% yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Mae paragraff 5.12 y JLDP yn nodi mai ardal y Cynllun sydd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (60% yn 2011) o gymharu â chyfartaledd Cymru (14.6% yn 2011). Mae 57.2% o boblogaeth Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg, ond roedd gostyngiad o 0.8% rhwng 2001 a 2011 (Cyfrifiad 2011).

5.5 Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn (2016-2021) yn nodi bod y ganran ganlynol (cyfran y bobl 3 oed neu'n hŷn) yn gallu siarad Cymraeg fesul ward (yn ôl data Cyfrifiad 2011). Mae'r rhestr yn darparu'r deg ward uchaf yn ôl siaradwyr Cymraeg a'r deg isaf o ran siaradwyr Cymraeg.

- Cyngar – 80.8%, sy'n ostyngiad o 3.9% ers 2001.
- Tudur – 80.7%, sy'n ostyngiad o 2.9% ers 2001.
- Cefni – 80.5%, sy'n ostyngiad o 2.6% ers 2001.
- Llanfihangel Ysegeifiog – 75.8%, sy'n ostyngiad o 2.5% ers 2001.
- Bodffordd – 73.3%, sy'n ostyngiad o 4.6% ers 2001.
- Braint – 73.2%, sy'n ostyngiad o 3.9% ers 2001.
- Bryngwran – 71.2%, sy'n ostyngiad o 4.9% ers 2001.
- Gwyngyll – 70.5%, sy'n ostyngiad o 3.4% ers 2001.
- Bodorgan – 68.3%, sy'n ostyngiad o 4.4% ers 2001.
- Llannerch y Medd – 69.9%, sy'n ostyngiad o 2.4% ers 2001.

Y deg ward isaf:

- Biwmares – 39.5%, sy'n ostyngiad o 0.2% ers 2001.
- Rhosneigr - 36%, sy'n ostyngiad o 6.6% ers 2001.
- Bae Trearddur - 38.1%, sy'n ostyngiad o 4.5% ers 2001.
- Caergybi - 39.1%, sy'n ostyngiad o 4.1% ers 2001.
- Maeshyfryd – 40.6%, sy'n ostyngiad o 3.1% ers 2001.
- Morawelon – 40.4%, sy'n ostyngiad o 4.9% ers 2001.
- Llanbedrgoch – 43.9%, sy'n ostyngiad o 1.6% ers 2001.
- Porthyfelin - 39.7%, sy'n ostyngiad o 6% ers 2001.
- Kingsland - 42.95%, sy'n ostyngiad o 5.1% ers 2001.
- Moelfre – 52.35%, sy'n gynnydd o 0.9% ers 2001.

5.6 Mae'r safle wedi'i leoli yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Isaf (AGEHI) (a ward) Llanfair-yn-Neubwll, lle mae 50.5% o'r boblogaeth (3 oed neu'n hŷn) yn siarad Cymraeg. Nid yw'r ward ymhlith y wardiau Cymraeg uchaf neu isaf ar Ynys Môn.

5.7 Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru, ac yn aml yn ôl oedran. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae'r nifer cyfartalog o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ledled Cymru yn 19% o'r boblogaeth gyfan. Mae hyn yn amlygu bod 6.8% o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn byw ar Ynys Môn, sy'n cynrychioli cyfran uchel o'r nifer cyffredinol o siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol, fel y nodwyd gan y Cyfrifiad. Y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn ar draws pob grŵp oedran yw 67.5% (gyda'r 32.5% sy'n weddill o'r boblogaeth ddim yn gallu siarad Cymraeg). Mae dros 72.8% o bobl ifanc 15-19 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn, sef y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y categori hwnnw ar draws Cymru gyfan. Mae dros 61% o bobl ifanc 25-29 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn, sef yr ail ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y categori hwnnw ar draws Cymru gyfan. Mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn is (60.2%) ar gyfer y grŵp oedran 30-34, y grŵp oedran 50-54 (50.6%), y grŵp oedran 70-74 (49.6%) a'r grŵp oedran 85+ (50.8%). Fel y gwelir, mae'r canrannau uchaf yn y grŵp oedran 15-19. Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu dylanwad y system addysg ar sgiliau ieithyddol plant oedran ysgol.

5.8 Gan ddefnyddio ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd Ynys Môn yn cynnwys 67,403 (2011) o 'bob preswylydd arferol 3 oed neu'n hŷn'. O hyn, ganwyd 65% yng Nghymru ac mae ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Yn ogystal, mae 76% o'r preswylwyr arferol a anwyd yng Nghymru ac sy'n byw yn Ynys Môn ar hyn o bryd yn gallu siarad Cymraeg.

5.9 Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru 'Ddatganiad Ystadegol Cyntaf' ym mis Gorffennaf 2019, a ddarparodd wybodaeth o'r Cyfrifiad Ysgolion. Awgrymodd fod gan Ynys Môn 45 o Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Gynhelir, o'i chymharu â dim ond dwy ysgol Saesneg. Yn Ynys Môn, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym mis Ionawr 2019 (oddeutu 90% o boblogaeth yr Ynys).

5.10 Dengys hyn fod y system addysg yn helpu i gynnal yr iaith Gymraeg ar draws Ynys Môn, ac ar ben hynny mae'r rhai o gefndir Cymraeg yn parhau i ddysgu Cymraeg ac yn diogelu'r iaith a diwylliant.

5.11 Fel y nodwyd uchod, ac a osodir yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2019 IACC (o dan Ddangosydd D1), awgryma ystadegau'r ONS fod 45,500 o bobl (67.5%) yn Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn

gynnydd oddeutu 10% o Gyfrifiad 2011, ond dylid nodi bod y sampl o ymatebwyr yn llai ar gyfer yr arolwg hwn, a all achosi i'r ffigurau chwyddo ychydig. Er hynny, mae hyn yn gynnydd sylweddol, ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod naill ai mwy o rieni neu aelodau o'r teulu estynedig sy'n siarad Cymraeg gartref gyda'u plant neu fod mwy o blant yn mynychu grwpiau *'Ti a Fi'* (sef grwpiau sy'n hyrwyddo datblygiad plant o oedran geni i oedran ysgol) neu grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg sy'n achosi twf yn y rhai sy'n siarad Cymraeg.

**Addysg Gymraeg**

5.12 Mae'r ysgolion cynradd agosaf i'r Safle'n cynnwys Ysgol Gynradd Y Tywyn ac Ysgol Sefydledig Caergeiliog. Mae'r ysgol uwchradd agosaf i'r gogledd o'r Safle, sef Ysgol Uwchradd Bodedern, sy'n ysgol uwchradd gydaddysgol. Mae'n sefydliad dwyieithog a redir gan IACC.

5.13 Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, *Dysgu Cymraeg*, yn 2006 yn dilyn Llywodraeth Cymru'n ailstrwythuro dysgu Cymraeg i oedolion. Sefydlwyd chwe chanolfan ranbarthol ledled Cymru, gan gynnwys un yng ngogledd Cymru, i ddod â darpariaeth Cymraeg i Oedolion ynghyd i sicrhau safonau a chydlyniad cenedlaethol, gyda ffocws ar ddarpariaeth ranbarthol a llawr gwlad.

5.14 Mae dalgylch Canolfan Gogledd Cymru'n cynnwys holl ardaloedd awdurdod lleol gogledd Cymru. Poblogaeth y rhanbarth yw 631,283; gydag oddeutu 30% naill ai'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg. Mae'r Ganolfan yn cydlynu darpariaeth Cymraeg i Oedolion ar draws gogledd Cymru, gan weithio gydag 11 o ddarparwyr annibynnol i ddarparu'r safonau dysgu uchaf. Maent hefyd yn gweithredu fel siop un stop i ddysgwyr Cymraeg yn y rhanbarth, ac yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac adnoddau i'w rhoi ar y trywydd cywir ac i helpu i sicrhau'r profiad dysgu gorau posib. Mae oddeutu 7,000 o bobl yn cofrestru ar gyrsiau Cymraeg yng ngogledd Cymru bob blwyddyn.

**Cyflogaeth, Isadeiledd a Chyfleusterau**

5.15 Mae'r safle'n elwa o gysylltiadau cynaliadwy â'r cyffiniau. Fel y nodwyd eisoes yn y Datganiad hwn, mae RAF Valley i'r de-ddwyrain o'r Safle, a phentrefi Llanfihangel yn Nhowyn, Bryngwran a Chaergeiliog yw'r prif ardaloedd datblygedig yn yr ardal ehangach. Mae Llanfihangel yn Nhowyn oddeutu 250m i'r dwyrain o DA6 (y tir mwyaf gorllewinol) ac mae Bryngwran oddeutu 100m i'r gogledd o DA4 a DA5 (y tir dwyreiniol).

5.16 O ystyried canran y bobl sy'n siarad Cymraeg ar draws sir Ynys Môn disgwylir y bydd cyfleusterau a gwasanaethau yn cael eu darparu yn Gymraeg, fel y dangosir yn Arolwg Cenedlaethol Cymru –

> *'Yn 2018-19, cyflwynwyd cyfres o gwestiynau i ofyn i bobl mewn gwaith, oedd â rhywfaint o allu siarad Cymraeg, am eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Dywedodd 72% o'r grŵp hwn fod ganddynt gydweithwyr sy'n siaradwyr Cymraeg yn y gwaith, a dywedodd 60% o'r rhain eu bod yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai o'r cydweithwyr hyn'*

5.17 Mae'r canrannau a roddir uchod yn dangos yn glir bod cyfran uchel o'r boblogaeth leol yn Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg (ar draws pob oedran, yn enwedig rhwng 15 a 19 oed).

5.18 Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y nifer o breswylwyr arferol rhwng 16 a 74 oed sy'n byw ar Ynys Môn ac mewn cyflogaeth. Mae'r Tabl wedi'i rannu i bob ardal diwydiant.

| Maes y Diwydiant | Cyfanswm y nifer o breswylwyr arferol rhwng 16 a 74 oed mewn ardal cyflogaeth (Cyfrifiad 2011) |
|---|---|
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 912 |
| Mwyngloddio a chwarela | 28 |
| Gweithgynhyrchu | 2,137 |
| Cyflenwad trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | 866 |
| Cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gweithgareddau adfer | 214 |
| Adeiladu | 2,408 |
| Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 3,592 |
| Trafnidiaeth a storio | 1,398 |
| Gweithgareddau gwasanaethau bwyd a llety | 1,953 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 264 |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 233 |
| Gweithgareddau eiddo tirol | 267 |

| Maes y Diwydiant | Cyfanswm y nifer o breswylwyr arferol rhwng 16 a 74 oed mewn ardal cyflogaeth (Cyfrifiad 2011) |
|---|---|
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 809 |
| Gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chymorth | 849 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 2,222 |
| Addysg | 2,392 |
| Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 2,754 |
| Y celfyddydau, adloniant a hamdden; gweithgareddau gwasanaethau eraill | 1,094 |
| Gweithgareddau aelwydydd fel cyflogwyr; nwyddau - a gwasanaethau - diwahaniaeth yn cynhyrchu gweithgareddau aelwydydd ar gyfer defnydd personol | 13 |
| Gweithgareddau sefydliadau a chyrff alldiriogaethol | 0 |
| | **Cyfanswm: 24,405** |

5.19 Fel y cyflwyna Tabl 3, o'r sectorau sy'n berthnasol i gyflawni'r datblygiad arfaethedig, y diwydiant adeiladu yw un o'r â mwyaf, gydag oddeutu 10% o'r boblogaeth (rhwng 16 a 74 oed) wedi'u cyflogi yn y sector.

5.20 Fel y dengys uchod, mae'r ardal leol wedi'i gwasanaethu gan ystod eang o gyfleusterau/gwasanaethau lleol, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd addysgol. Bydd ychwanegu'r Datblygiad hwn yn cefnogi'r gymuned leol o ran cyflogaeth, drwy greu manteision economaidd a chymdeithasol cysylltiedig mewnfuddsoddi (uniongyrchol ac anuniongyrchol) i Ynys Môn.

### *Cam 2 – Casglu, cofnodi a dadansoddi gofynion y Polisi:*

5.21 Rhoddwyd asesiad manwl o'r polisi cynllunio perthnasol yn adran 4 yr adroddiad hwn. Amlygir bod gan IACC sylfaen polisi sylweddol o ran yr iaith Gymraeg a'i hyrwyddo. Fel

y nodwyd, mae'r adroddiad hwn wedi'i ysgrifennu yn unol â'r canllawiau a'r fethodoleg a nodir yn SPG y Cyngor.

5.22 Mae Cam 3 isod yn nodi ac yn ceisio sicrhau y darperir mesurau lliniaru lle mae'r materion allweddol yn dangos effaith benodol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r datblygiad hwn.

5.23 Gan gyfeirio at Ffigur 7.2 Atodiad 7 SPG y Cyngor, caiff yr effeithiau eu categoreiddio gan ddefnyddio'r Matrics Risg canlynol (mae'r effeithiau wedi'u seilio dros 20 mlynedd):

- Dibwys (0);
- Effaith Fach (1) – gostyngiad o hyd at 2% na'r siaradwyr amcanol (busnes fel arfer);
- Effaith Ganolig (2) – gostyngiad o 2% i 5% na'r siaradwyr amcanol (busnes fel arfer);
- Effaith Sylweddol (3) – gostyngiad o 5% i 10% na'r siaradwyr amcanol (busnes fel arfer); a
- Effaith Fawr (4) – gostyngiad o 10% neu fwy na'r siaradwyr amcanol (busnes fel arfer).

## 6.0 CAM 3 - ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL A IEITHYDDOL

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| **Symudiad Iaith a Phoblogaeth** | | | | |
| Sut y bydd y datblygiad yn sicrhau cyfleoedd i bobl leol aros yn eu cymunedau? | Nid oes tystiolaeth sy'n dangos y bydd y Datblygiad yn atal cyfleoedd i bobl leol aros yn eu cymunedau lleol. Bydd yr Ymgeisydd yn ceisio hysbysebu cyfleoedd adeiladu i bobl leol yn yr ardal, a chysylltu â NWEAB / Busnes Cymru, gan gyfrannu'n gadarnhaol at sector cyflogaeth yr ardal. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| A yw'n debygol y bydd y datblygiad yn denu pobl i'r gymuned? Os felly, faint a ddisgwylir? Faint a pha ganran sy'n debygol o fod yn siaradwyr Cymraeg? | Rhagwelir y bydd y Datblygiad yn denu pobl i'r gymuned ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu.<br><br>Mae'r Datganiad Manteision Economaidd sy'n cyd-fynd â'r cais cynllunio yn cyflwyno bod gan Ynys Môn gyfran arbennig o uchel o breswylwyr sy'n gweithio yn y diwydiant cyflenwi trydan o gymharu â'r lefel ranbarthol a chenedlaethol. Nodir y gallai'r lefel hon o gyflogaeth o fewn y sector trydan gael ei chamliwio gan orsafoedd pŵer yn Wylfa a Thrawsfynydd, ond ystyrir bod y sgiliau ar draws y sector ynni yn drosglwyddadwy ar y cyfan, ac felly'n dal i gynnig lefel o arbenigedd. O ran cyflogaeth, disgwylir y gallai'r Datblygiad gynhyrchu rhwng 120 a 190 o swyddi dros y pedwar i bum mis cyntaf, ac yna bydd yn darparu dwy swydd mewn rolau cynnal a chadw am hyd at 40 mlynedd. | Y duedd ar Ynys Môn yw bod mudo net positif (data Cyfrifiad 2011).<br>Fel y dengys uchod, gall dros 55% o boblogaeth Ynys Môn siarad Cymraeg. | Niwtral (0) | Gwelliant:<br>marchnata / hysbysebu lleol<br>Arwyddion addysgol<br><br>O ystyried y proffil sgiliau presennol ar Ynys Môn, rhagwelir y byddai'r gyflogaeth sydd ar gael mewn cysylltiad â'r datblygiad arfaethedig yn addas i rai o'r boblogaeth leol, a fydd yn lleihau'r potensial ar gyfer mewnlifiad o bobl ddi-Gymraeg i'r ardal. |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| | Mae adolygiad o boblogaeth y gweithle ar draws Ynys Môn yn awgrymu bod tua 83% o'r gweithlu ar Ynys Môn hefyd yn byw ar yr Ynys. Mae tuag 11% yn cymudo o Wynedd. Yn gyffredinol, mae 97% o'r gweithlu'n cymudo ac yn byw o fewn rhanbarth y gogledd, sy'n dangos lefel uchel o gynnal yn yr ardal twf ogleddol.<br><br>Mae'r Datblygiad hefyd yn cyflwyno cyfle i ymwelwyr â'r gymuned leol ddefnyddio sgiliau Cymraeg a sgiliau ategol o fewn y Datblygiad (ar hyd Llwybrau Tramwy a llwybrau troed). | | | |
| A yw'n debygol y bydd pobl leol yn mudo o'r gymuned o ganlyniad i'r datblygiad? | Ni ystyrir bod unrhyw effeithiau negyddol ar ddatblygiadau preswyl cyfagos na chymunedau presennol. O ganlyniad i'r datblygiad, ni fyddai'n creu effeithiau sy'n arwain at y gymuned yn mudo i ffwrdd o gyffiniau'r Safle. | Aseswyd y datblygiad hwn yn erbyn polisïau'r JLDP, ac nid oes unrhyw effaith sylweddol ar breswylwyr presennol a fyddai'n achosi mudo allan o ganlyniad i'r datblygiad. | Niwtral (1) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| Cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) ac unigolion nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg | Mae'r datblygiad yn debygol o ddenu siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Mae gan ardaloedd y wardiau cyfagos yn y Sir sgiliau Cymraeg cryf, wedi'u cefnogi gan gyfleusterau addysgol sefydledig (Cyfrwng Cymraeg) sy'n cynorthwyo â datblygiad a pharhad siarad Cymraeg. | Mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd y wardiau cyfagos eraill yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a/neu'r Sir. | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol<br><br>O ystyried y proffil sgiliau presennol ar Ynys Môn, rhagwelir y byddai'r gyflogaeth sydd ar gael mewn cysylltiad â'r datblygiad |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| | Fel y nodwyd uchod, mae gan Ynys Môn gyfran gymharol uchel o breswylwyr sy'n gweithio yn y diwydiant cyflenwi trydan o gymharu â'r lefel ranbarthol a chenedlaethol. Nodir y gallai'r lefel hon o gyflogaeth o fewn y sector trydan gael ei chamliwio gan orsafoedd pŵer yn Wylfa a Thrawsfynydd, ond ystyrir bod y sgiliau ar draws y sector ynni yn drosglwyddadwy ar y cyfan, ac felly'n dal i gynnig lefel o arbenigedd. O ran cyflogaeth, disgwylir y gallai'r Datblygiad gynhyrchu rhwng 120 a 190 o swyddi dros y pedwar i bum mis cyntaf, ac yna bydd yn darparu dwy swydd mewn rolau cynnal a chadw am hyd at 40 mlynedd.<br><br>Mae adolygiad o boblogaeth y gweithle ar draws Ynys Môn yn awgrymu bod tua 83% o'r gweithlu ar Ynys Môn hefyd yn byw ar yr Ynys. Mae tua 11% yn cymudo o Wynedd. Yn gyffredinol, mae 97% o'r gweithlu'n cymudo ac yn byw o fewn rhanbarth y gogledd, sy'n dangos lefel uchel o gynnal yn yr ardal twf ogleddol. | | | arfaethedig yn addas i rai o'r boblogaeth leol, a fydd yn lleihau'r potensial ar gyfer mewnlifiad o bobl ddi-Gymraeg i'r ardal. |
| A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yn y strwythur oedran o fewn y boblogaeth: mwy neu lai o blant, pobl | Oherwydd natur y Datblygiad, ni ddisgwylir y bydd yn debygol o arwain at newid yn strwythur oedran y boblogaeth. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| ifanc, pobl ganol oed, yr henoed? | | | | |
| A yw'r newid yn debygol o fod yn un parhaol neu dros dro? | Mae gosod y Datblygiad yn rhywbeth dros dro. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol adnabyddadwy ar y Gymraeg o ganlyniad i'r datblygiad hwn. Mae cylch oes y Datblygiad wedi'i rannu'n ddau gam, gyda'r cam adeiladu (gan gynnwys paratoi tir, gosod a chysylltu â'r grid) yn cwmpasu tua 4-5 mis, a'r gwaith gweithredu a chynnal a chadw yn cwmpasu 40 mlynedd. Gellid cynhyrchu oddeutu 120 a 190 o swyddi yn ystod cam cychwynnol y datblygiad, a rhagwelir dwy swydd ar gyfer y camau gweithredu a chynnal a chadw. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| **Elfennau Gweledol** | | | | |
| P'un ai y bydd y Datblygiad yn cynyddu gwelededd yr iaith? | Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu ar hyn o bryd, ond gallai ddenu pobl i'r ardal leol.<br><br>Mae'n bosib y gallai cynnydd mewn symud yn yr ardal gefnogi cyfleusterau lleol sefydledig sy'n darparu mynediad at ddysgu a chymorth y Gymraeg. Mae'r Datblygiad yn bwriadu cynnwys arwyddion dwyieithog... | Mae'n bosib gosod arwyddion dwyieithog ar rwydweithiau priffyrdd sy'n agos at y Datblygiad. Yn ei dro, bydd yn cynyddu gwelededd yr iaith Gymraeg. | Niwtral (0) | Gwelliant: Arwyddion dwyieithog yn y datblygiad. |
| Delwedd a brandio corfforaethol - arwyddion a hysbysebion ar y safle sydd o fewn y cylch gorchwyl | Mae'r Ymgeisydd yn cadarnhau y bydd yr holl arwyddion a hysbysebion yn cael eu hysbysebu gan ddefnyddio arwyddion a deunydd ar-lein dwyieithog. Bwriad hyn yw sicrhau bod pobl leol yn gweld y datblygiad fel rhan o'r gymuned leol ac | Amherthnasol | Cadarnhaol (1) | Gwelliant: Arwyddion a hysbysebion dwyieithog o fewn y datblygiad ac ar yr holl ddeunydd marchnata. |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| cynllunio e.e. arwydd hysbysebu/marchnata ar gyfer safle tai newydd, arwyddion a hysbysebion i gwsmeriaid mewn mannau cyhoeddus ar safleoedd cyflogaeth | yn cael cyfle cyfartal i gael yr holl wybodaeth farchnata yn eu prif iaith. | | | |
| Enw'r safle neu'r datblygiad – a fydd yn cadw hen enw Cymraeg, neu a fydd unrhyw enw newydd yn deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol â'r ardal, os yw'n ymarferol | Mae'r Ymgeisydd yn cynnig sicrhau y cyfeirir at y Datblygiad yn ôl enw'r safle, sef Fferm Solar Parc Traffwll, sy'n deillio o Lyn Traffwll gerllaw. | Amherthnasol | Cadarnhaol (1) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| **Ansawdd Bywyd, gan gynnwys Isadeiledd Cymunedol** | | | | |
| A oes digon o ofal plant a lleoedd cyn-ysgol ar gael yn yr ardal? | Oherwydd natur y Datblygiad (mae'r cam adeiladu'n cynnwys paratoi tir, gosod a chysylltu â'r grid, y rhagwelir y bydd yn cymryd oddeutu 4-5 mis), ni fydd gwaith gosod y Datblygiad yn effeithio ar gyflenwad gofal plant a chyn-ysgol yn ardal y Safle. O ystyried y setiau sgiliau presennol ar Ynys Môn a Gwynedd, ni ddisgwylir lefelau uchel o fewnfudo. Yn yr un modd, mae natur tymor byr y rhaglen adeiladu yn annhebygol o arwain at deuluoedd yn symud i'r ardal leol, felly | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| | mae'n annhebygol yr effeithir ar ofal plant a lleoedd cyn-ysgol. | | | |
| A oes digon o le mewn ysgolion yn yr ardal? A yw'r datblygiad yn debygol o fod angen mwy o leoedd mewn ysgolion neu a yw'r ddarpariaeth eisoes yn ddigonol? A oes digon o adnoddau i sicrhau y gall yr ysgolion barhau i gyflawni eu rôl o feithrin siaradwyr Cymraeg rhugl? | Oherwydd natur y Datblygiad (mae'r cam adeiladu'n cynnwys paratoi tir, gosod a chysylltu â'r grid, y rhagwelir y bydd yn cymryd oddeutu 4-5 mis), ni fydd gwaith gosod y Datblygiad yn effeithio ar leoedd mewn ysgolion yn yr ardal. O ystyried y setiau sgiliau presennol ar Ynys Môn a Gwynedd, ni ddisgwylir lefelau uchel o fewnfudo. Yn yr un modd, mae natur tymor byr y rhaglen adeiladu yn annhebygol o arwain at deuluoedd yn symud i'r ardal leol ac angen mwy o leoedd mewn ysgolion. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| Y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg yn yr ysgol | Am fod y Datblygiad yn gosod fferm ffotofoltäig ar y ddaear, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith negyddol ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg mewn ysgolion lleol. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| A fydd y datblygiad yn cynyddu'r galw am gefnogaeth trochi yn y Gymraeg i newydd-ddyfodiaid? | Mae addysg ddwyieithog yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, rhagwelir na fydd y Datblygiad yn cynyddu'r galw am gefnogaeth trochi yn y Gymraeg i newydd-ddyfodiaid oherwydd ei natur (datblygiad ynni adnewyddadwy, a fydd yn cynnwys cyfnod adeiladu o 4-5 mis). | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| A fydd y datblygiad yn cynyddu'r galw ar gyfleusterau a gwasanaethau lleol? | Rhagwelir y bydd y Datblygiad yn cynyddu'r galw ar gyfleusterau a gwasanaethau lleol yn ystod camau adeiladu'r Datblygiad. Disgwylir y caiff cyfleusterau a siopau lleol eu defnyddio, gan roi cyfle felly i'r Gymraeg gael ei defnyddio.<br><br>Nid oes rheswm dros dybio y byddai unrhyw effaith negyddol ar wasanaethau lleol o ganlyniad i'r datblygiad hwn. | Amherthnasol | Cadarnhaol (1) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| I ba raddau y bydd y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleusterau neu wasanaethau presennol? | Fel yr arddangosir uchod yn y Datganiad hwn, mae nifer o bentrefi a chyfleusterau yn agos at y Safle.<br><br>Rhagwelir, yn seiliedig ar resymau cyfleustra, fod gweithwyr adeiladu yn debygol o ddefnyddio gwasanaethau lleol.<br><br>Bydd graddfa arfaethedig y datblygiad, felly, yn cynnig manteision economaidd i'r cymunedau lleol. | Amherthnasol | Cadarnhaol (1) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| I ba raddau y bydd y datblygiad yn creu cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyfleusterau a gwasanaethau lleol, megis neuaddau, siopau, ac yn y blaen? | Gallai cynnydd mewn symud o fewn ac o gwmpas y Safle gefnogi busnesau lleol sefydledig. Byddant yn cael y blaen o ran manteisio ar botensial cynyddol y farchnad. Nid yn unig ymwelwyr, ond mae gweithwyr adeiladu y datblygiad hefyd yn cynnig gwerthiannau posib i gwsmeriaid. Byddai siaradwyr Cymraeg yn parhau i ddefnyddio'u gallu i siarad Cymraeg a hyrwyddo defnydd parhaus o'r iaith. | Amherthnasol | Cadarnhaol (1) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Cyflogaeth** | | | | |
| Sut y bydd y datblygiad yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth presennol yn yr ardal e.e. a fydd yn meithrin amrywioldeb economaidd yn yr ardal leol ai peidio? | Rhagwelir y bydd y Datblygiad yn cyflwyno nifer bach o gyfleoedd cyflogaeth drwy gydol ei oes, ond yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu, lle bydd y Datblygiad yn cyflwyno manteision cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol. Fel y soniwyd uchod, bydd y datblygiad yn creu cyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol ar draws ystod o fathau o alwedigaethau, ac mewn sectorau sy'n addas ar gyfer setiau sgiliau presennol ar Ynys Môn. Gallai'r Datblygiad gynhyrchu rhwng 120 a 190 o swyddi dros y pedwar i bum mis cyntaf, a bydd yn mynd ymlaen i gynnal cyfwerth dwy swydd mewn rolau cynnal a chadw. Disgwylir y bydd gweithwyr adeiladu yn cynyddu refeniw economaidd siopau a gwasanaethau lleol. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| Nifer o swyddi amser llawn / rhan-amser | Gweler y sylwadau uchod ynglŷn â'r cyfleoedd cyflogaeth posib o ganlyniad uniongyrchol i'r Datblygiad. | Amherthnasol | Cadarnhaol (1) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| Sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y busnes neu'r sefydliad a sut mae hynny'n cymharu â sgiliau llafur pobl leol (o fewn yr ardal teithio i'r gwaith) | Mae adolygiad gofalus o broffil meddiannaeth Ynys Môn wedi'i gynnal, ac yn ôl Experian, mae'r proffil yn adlewyrchu'r proffiliau daearyddol ehangach i raddau helaeth, ac eithrio cyfran ychydig yn uwch o alwedigaethau crefftau medrus (16%) o gymharu â'r cyfartaleddau rhanbarthol (14%) a chenedlaethol (13%). Y grŵp mwyaf ar | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Bydd hysbysebu lleol am gyfleoedd cyflogaeth o ystyried y nifer uchel sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant trydan yn y rhanbarth gogleddol ar hyn o bryd. |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| | draws Ynys Môn yw'r galwedigaethau proffesiynol, ac yna galwedigaethau crefftau medrus. Dylid nodi bod gan y proffil cyffredinol ar draws Ynys Môn gyfran ychydig yn uwch o breswylwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau gwerth uwch, o gymharu â llai a gyflogir ar draws galwedigaethau megis gwerthiannau, gweithredwyr prosesau/peiriannau, a galwedigaethau elfennol.<br>Mae'n allweddol nodi bod gan Ynys Môn gyfran arbennig o uchel o breswylwyr sy'n gweithio yn y diwydiant cyflenwi trydan o gymharu â'r lefel ranbarthol a chenedlaethol. Ar draws Ynys Môn, mae hyn yn cyfrif am tua 1,000 o breswylwyr sy'n gweithio yn y diwydiant. Mae hyn yn dangos bod nifer o breswylwyr eisoes yn gweithio yn y diwydiant ynni, gan awgrymu sylfaen sgiliau sydd eisoes yn bodoli.<br>Lle bo'n bosib, bydd y Datblygiad yn rhoi cyfleoedd gwaith i'r boblogaeth leol. | | | |
| Cyflogau a gynigir a sut mae hynny'n cymharu â chyflogau cyfartalog yn yr ardal | Anhysbys yn ystod y cam hwn o'r broses. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| Sgiliau llafur pobl leol (o fewn yr ardal teithio i'r gwaith) a pha mor debygol ydyw yn ôl yr asesiad uchod y bydd y | Nid yw sgiliau llafur pobl leol yng nghyffiniau'r Safle yn hysbys ar yr adeg hon o'r broses. Noda'r Ymgeisydd, fodd bynnag, y lefel uchel o weithwyr medrus yn y diwydiant trydan o ystyried y gorsafoedd pŵer presennol yn y rhanbarth | Amherthnasol | Cadarnhaol (1) | Lliniaru: Bydd hysbysebu lleol am gyfleoedd cyflogaeth o ystyried y nifer uchel sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant trydan |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| swyddi'n cael eu llenwi o blith y boblogaeth leol. | gogleddol. Yn ogystal, lle bo'n bosib, bydd y Datblygiad yn rhoi cyfleoedd gwaith i'r boblogaeth leol. O ystyried y setiau sgiliau presennol ar Ynys Môn a Gwynedd, disgwylir y bydd cyfleoedd cyflogaeth yn addas i weithwyr lleol. | | | yn y rhanbarth gogleddol ar hyn o bryd. |
| A yw'n debygol y bydd angen i chi chwilio y tu allan i'r ardal leol am weithwyr e.e. i gael sgiliau arbennig? | Nid yw hyn yn hysbys ar hyn o bryd, ond mae'r Datganiad Buddion Economaidd wedi nodi bod gan Ynys Môn gyfran uchel o breswylwyr yn gweithio yn y diwydiant cyflenwi trydan o gymharu â'r lefel ranbarthol a chenedlaethol. Disgwylir i hyn gynorthwyo'r Datblygiad (oherwydd ei natur) gan yr ystyrir y gallai sgiliau arbennig fod ar gael yn Ynys Môn ac mewn wardiau a Siroedd cyfagos. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |
| Pa fath o sgiliau Cymraeg sy'n hanfodol ac yn ddymunol ar gyfer y swyddi a fydd yn cael eu creu gan y datblygiad? | Oherwydd natur y datblygiad, nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi a fydd yn cael eu creu.<br><br>Serch hynny, ar gyfer rolau sy'n gofyn am gysylltu â'r gymuned leol a'r gadwyn gyflenwi, byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais bendant. Bydd hyn yn cael ei wneud yn glir yn yr hysbysebion swyddi. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Gwelliant: bydd hysbysebion swyddi'n cadarnhau y bydd y gallu i siarad Cymraeg yn fanteisiol i ymgeiswyr. |
| Sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn angenrheidiol er mwyn i'r gweithwyr a'u dibynyddion integreiddio i'r gymuned leol. | Ystyrir nad yw sgiliau iaith Gymraeg yn gwbl angenrheidiol i'r gweithwyr adeiladu.<br><br>Serch hynny, ar gyfer rolau sy'n gofyn am gysylltu â'r gymuned leol a'r gadwyn gyflenwi, byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais bendant. Bydd hyn yn cael ei wneud yn glir yn yr hysbysebion swyddi. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Gwelliant: bydd hysbysebion swyddi'n cadarnhau y bydd y gallu i siarad Cymraeg yn fanteisiol i ymgeiswyr. |

| Cwestiwn | (a) Disgrifiad o'r Asesiad Cyffredinol | (b) Datganiad Tystiolaeth | (c) Datganiad Effaith ar y Gymuned | (d) Lliniaru / Gwella |
|---|---|---|---|---|
| Yr effaith gronnol bosib y gallai'r datblygiad ei chael, gan ystyried unrhyw ddatblygiad diweddar perthnasol arall yn yr ardal leol. | Wrth baratoi'r cais, paratowyd Datganiad Amgylcheddol. Mae'n cynnwys Asesiad Effaith Gronnol sy'n ystyried yr effaith gronnol bosib y gallai'r Datblygiad ei chael, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â datblygiadau cyfagos a nodwyd.<br>Ni ragwelir unrhyw effeithiau cronnol ar y Gymraeg. | Amherthnasol | Niwtral (0) | Lliniaru: Dim angen / amherthnasol |

## 7.0 CASGLIADAU

7.1 Cyflwynir y Datganiad Iaith Gymraeg hwn i gefnogi cais cynllunio ar gyfer datblygiad arfaethedig fferm ffotofoltäig ar y ddaear ar dir ym Mharc Traffwll, Ynys Môn.

7.2 Mae'r Asesiad hwn wedi dangos bod cyfle i'r Datblygiad gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar nodweddion cymunedol siaradwyr Cymraeg presennol yn gyffredinol. Mae'r cynigion wedi'u lleoli'n gynaliadwy ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r boblogaeth leol. Fel y dangosir yn y tabl uchod, bydd y datblygiad arfaethedig yn creu cyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol ar draws ystod o fathau o alwedigaethau. Drwy'r cam paratoi tir, gosod a chysylltu â'r grid (oddeutu 4-5 mis), gallai'r datblygiad greu rhwng 120 a 190 o swyddi. Pan fydd y datblygiad yn weithredol, bydd yn mynd ymlaen i gynnal cyfwerth dwy swydd mewn rolau cynnal a chadw (am 40 mlynedd). Fel y dangoswyd uchod, mae ymchwil yn awgrymu bod y diwydiant adeiladu yn cyflogi cyfran uchel o breswylwyr arferol yn Ynys Môn.

7.3 Er gwaethaf yr hyn uchod, mae'r asesiad wedi nodi nifer o fesurau gwella a lliniaru a fyddai'n cefnogi'r gymuned leol ac effeithiau ieithyddol – gan gynnwys:

- Arwyddion dwyieithog;
- caiff y gallu i siarad Cymraeg ei restru yn ddymunol ym mhob hysbyseb swydd; a
- Hysbysebu/marchnata'r Datblygiad yn lleol

7.4 I gloi, ar ôl asesu'r datblygiad arfaethedig gan ddefnyddio'r fethodoleg a amlinellir yn SPG Iaith Gymraeg y Cyngor, dangoswyd bod y cynigion yn rhoi cyfle i gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y gymuned ac effaith ieithyddol.

# Atodiad 1

# Cynllun Lleoliad Safle